

❖ MYFYRDOD 'AWN I FETHLEM'

Gair o fyd y ddawns yw 'carol' yn wreiddiol, heb unrhyw gyswllt penodol â'r Nadolig. 'Dawns gylch' oedd ei ystyr ar un adeg, ond wedyn aeth i olygu cân y dawnsywyr hefyd. Llaciwyd yr ystyr ymhellach nes ei ddefnyddio fel enw ar bob math ar ganu rhydd, ond yn arbennig cerddi yn gysylltiedig â gwyliau a thymhorau'r flwyddyn. Yn eu plith caed llawer a luniwyd ar gyfer gwyliau'r Nadolig, a cân lawen i ddathlu'r Nadolig yw ystyr 'carol' fel arfer erbyn heddiw.

Mae lle amlwg i'r Nadolig yng ngwaith y Ficer Prichard, gŵr a gysegrodd ei ddawn brydyddol i hyfforddi'r werin yng ngwirioneddau'r ffydd Gristnogol. Yn ei gerddi, mae'n annog y bobl i ymwrthod â'r oferedd a oedd yn gymaint rhan o wyliau Nadolig ei ddydd ac a arweiniodd, ym mlwyddyn marw'r Ficer, i'r senedd Biwritanaidd ddiddymu'r ŵyl.

Onid nid annog y bobl i dristwch a phruddglwyf a wna'r Ficer ond i lawenydd gwell, i dreulio'r ŵyl 'mewn nefol hyfrydwch a duwiol ddifyrrwch'. Ac wrth sôn am y Nadolig daw sioncrwydd a llonder i'w ganu, sŵn dawnsio a gorfoleddu, sŵn dathlu pen blwydd, fel yn ei gân hyfryd sy'n ein cymell i fynd i Fethlem. (Dylid egluro, efallai, mai 'preseb' yw ystyr 'craits' ym mhennill olaf y detholiad ohoni a gyhoeddir yma.)

A Mair yn agos at esgor, bu raid iddi hi a Joseff wynebu'r daith hir o Nasareth i Fethlehem ar orchymyn y brenin. Gadewch i ninnau, ar wahoddiad y Brenin Mawr, fynd at grud ei Fab mewn ffydd ac edifeirwch a diolchgarwch.

Awn i Fethlem bawb dan ganu,
Neidio, dawnsio a difyrru,
I gael gweld ein Prynwr c'wedig
Aned heddiw, ddydd Nadolig.

Yn lle aur, rhown lwyrgred ynddo,
Yn lle thus, rhown foliant iddo,
Yn lle myrr, rhown wir 'difeirwch,
Ac fe'u cymer drwy hyfrydwch.

Awn i Fethlem i gael gweled
Y rhyfeddod mwya' wnaethped,
Gwneuthur Duw yn ddyn naturiol
I gael marw dros ei bobol.

Awn i weld yr Hen Ddihenydd,
A wnaeth y nef a'r môr a'r mynydd,
Alffa oediog, Tad goleuni,
Yn ddyn bychan, newydd eni.

Awn i weled Duw y Gair,
Brenin nef, ar arffed Mair,
Wedi cymryd cnawd dyn arno,
Yn fab bach yn dechrau sugno.

Awn i Fethlem i gael gweled
Mair a Mab Duw ar ei harffed;
Mair yn dala rhwng ei dwylo
Y Mab sy'n cadw'r byd rhag cwmpo.

Awn i weld concwerwr angau
Wedi'i rwymo mewn cadachau,
A'r Mab a rwyga deyrnas Satan
Yn y craits, heb allu criplan.

Rhys Prichard

E. Wyn James